

LIC38528



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad - Crynodeb o Ymatebion

Newidiadau arfaethedig i Ddeddfwriaeth Bwyd Cymru

Awst 2019

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'r ddogfen ymgynghori *'Diwygiadau arfaethedig i Ddeddfwriaeth Bwyd Cymru'*.

Cynulleidfa

Deiliaid gwobr Cynllun yr UE Enw Bwyd Gwarchoddedig (PFN) a Dynodiad Daearyddol (DI); awdurdodau gorfodi; cynhyrchwyr garddwriaethol; grwpiau defnyddwyr; rhanddeiliaid eraill o fewn y diwydiant a'r cyhoedd yn ehangach (e.e. sefydliadau anllywodraethol) sydd â diddordeb mewn deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â bwyd.

Rhagor o wybodaeth

Yr Is-adran Fwyd,
Llywodraeth Cymru
Llandrindod
Spa Road (Dwyrain)
Powys
LD1 5HH

Ebost: FoodEUExitConsultation@gov.wales
YmgynghoriadBwydYmadaelArUE@llyw.cymru

Copiâu Ychwanegol

I weld y ddogfen, ewch i wefan Llywodraeth Cymru:

<https://llyw.cymru/diwygiadau-i-ddeddfwriaeth-gymreig-ym-maes-bwyd>

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad – trosolwg	4
3. Cwestiynau Arfaethedig	4
4. Y Camau Nesaf	7
5. Atodiad A: Rhestr o Ymatebwyr	8

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd

1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad rhwng 20 Mai 2019 a 28 Mehefin 2019 ar y newidiadau arfaethedig i gywiro diffygion o fewn Offerynnau Statudol Cymru ("OSau") sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (UE).

Cafodd safbwyntiau rhanddeiliaid o fewn y diwydiant eu gwahodd fel rhan o'r cyfnod ymgynghori hwn o chwe wythnos. Cafodd y papur ymgynghori ei gyhoeddi ar y tudalennau ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru. Roedd yn bosibl i'r ymatebwyr gyflwyno eu barn a'u sylwadau drwy ddefnyddio y ffurflen dempled ar gopi caled neu yn electronig, defnyddio'r ffurflen arolwg ar-lein a ddarparwyd, neu ymateb drwy lythyr neu e-bost, naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Mae'r ddogfen hon yn grynodeb o'r ymateb a gafwyd i'r ymgynghoriad.

Roedd yr ymgynghoriad ynghylch diwygiadau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu gwneud i Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 a Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009. Mae'r newidiadau arfaethedig yn gysylltiedig ag Enw Bwyd Gwarchoddedig (PFN) a chynnyrch Gwybodaeth Ddaearyddol (GI); cynnyrch gwin; a chynnyrch ffrwythau cymysg a llyisiau sy'n tarddu o fwy nag un wlad.

Roedd yr ymgynghoriad yn cyfeirio at ddiwygiadau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu gwneud i'r offerynnau uchod i gyflwyno darpariaethau trosiannol mewn deddfwriaeth ddomestig fydd yn rhoi mwy o amser i gynhyrchwyr a gweithgynhyrchwyr fodloni'r gofynion newydd ar gyfer labelu wedi ymadael â'r UE. Mae'r diwygiadau arfaethedig wedi'u cynllunio i helpu busnesau i addasu i newidiadau posibl i'r gofynion labelu sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (UE). Mae'r newidiadau hyn yn angenrheidiol er mwyn gweithredu y cynllun PFN/GI yn y DU i gymryd lle cynllun yr UE, ac i reoli newidiadau ar gyfer labeli cynnyrch garddwriaethol cymysg, drwy roi cyfnod pontio i fusnesau er mwyn iddynt addasu i'r trefniadau newydd wedi ymadael.

2. Yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad - trosolwg

Un ymateb a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac mae wedi'i ystyried a'i ddadansoddi. I grynhai, roedd yr ymatebydd yn cefnogi cyflwyno'r newidiadau. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar iawn i'r ymatebydd am gyflwyno ei farn.

3. Cwestiynau Arfaethedig

Mae'r cwestiynau a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori wedi eu crynhai isod:

Cwestiwn 1

Ydych chi'n cytuno â'r diwygiadau arfaethedig ynghylch y Rheoliadau a grybwyllir uchod?

Roedd yr ymateb a gafwyd yn bositif ar y cyfan gan fynegi cefnogaeth i waith paratoadol Llywodraeth Cymru ar gyfer Brexit, fydd yn sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol wedi ei baratoi'n llawn ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE. Hefyd, roedd yr ymatebydd yn mynegi diddordeb yng Nghynllun PFN/GI newydd y DU sy'n cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â DEFRA a Gweinyddiaethau Datganoledig eraill.

Cwestiwn 2

Ydych chi'n credu y gellir newid neu ychwanegu rhywbeth at y diwygio arfaethedig hwn i wella yr effeithiau positif neu i leihau unrhyw effeithiau negatif?

Roedd yr ymateb a gafwyd yn nodi, o ran busnesau sy'n cyflenwi y farchnad yn y DU a'r UE, y byddai opsiwn i ddewis cynnwys logo y DU a'r UE ar ddeunydd pacio yn fanteisiol. Awgrymodd yr ymatebydd y byddai hyn yn helpu busnesau i wneud y gorau o gyfleoedd o fewn y farchnad ac y byddai yn caniatáu iddynt ddefnyddio logo PFN y DU o fewn marchnad y DU a'r logo PGI o fewn marchnad yr UE.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried gwarchod a hyrwyddo bwyd a diod o Gymru fel blaenoriaeth bwysig fydd yn cryfhau ein henw da yn fyd-eang am fwyd o safon.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y cynllun Enw Bwyd Gwarchodedig Ewropeaidd (EUPFN), a'n prif nod yw parhau i ddiogelu uniondeb a'r pwynt gwerthu unigryw sy'n deillio o'r PFN ar gyfer cynnyrch bwyd a diod rhanbarthol yng Nghymru, sy'n ei warchod o fewn y farchnad.

Am y rheswm hwn, mae cynllun GI y DU yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â DEFRA a Gweinyddiaethau Datganoledig eraill. Unwaith y sefydlir y Cynllun newydd, bydd y rheini sydd â statws PFN/GI yr UE ar hyn o bryd yn cael eu gwarchod yn awtomatig a bydd yn ofynnol iddynt ddefnyddio logos Cynllun newydd y DU. Gall Glau y DU a'r UE barhau i ddefnyddio logo priodol yr UE, ochr yn ochr â logo y DU, ond bydd hyn ond yn dangos bod y cynnyrch yn cael ei warchod o fewn yr UE (ac nid o fewn y DU).

Mewn sefyllfa o 'ddim cytundeb' gallai'r DU golli mynediad awtomatig i gynllun EUPFN. Bydd yn rhaid i gynnyrch newydd o'r DU sydd am gael eu gwarchod ymuno â chynllun GI y DU. Bydd gan gynhyrchwyr presennol gyfnod o dair blynedd o lansio'r cynllun i fabwysiadu logo perthnasol y DU ar ddeunydd pacio bwyd a chynnyrch amaethyddol. Bydd yn cael ei gydnabod o fewn yr UE fel aelod trydydd gwlad. Felly, mewn sefyllfa 'heb gytundeb', bydd y Glau o'r DU sy'n cael eu gwerthu ym marchnad yr UE yn gorfod dilyn rheolau labelu fel aelod trydydd gwlad er mwyn cael mynediad at gynllun yr EUPFN.

Cwestiwn 3

A oes unrhyw bwyntiau ychwanegol yr hoffech eu gwneud ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau hyn?

Roedd yr ymatebydd am bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod modd parhau i ddefnyddio y fframwaith deddfwriaethol, gan bwysu ei fod yn hanfodol bod cynnyrch o Cymru sydd a statws PFN yr UE yn parhau i gael eu gwarchod wedi ymadael â'r UE, o fewn marchnadoedd y DU a'r UE, er mwyn cadw y gallu i ddenu premiwm a'u gwarchod rhag cael eu hefelychu.

Cwestiwn 4

Hoffem wybod eich barn am yr effaith a gaiff y cynigion hyn ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a hefyd yr effaith a gânt o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ni chafwyd unrhyw sylwadau.

Cwestiwn 5

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy yn benodol, defnyddiwch y blwch hwn i'w nodi.

Ni chafodd unrhyw faterion eu nodi.

4. Prif ganlyniadau'r prosiect hwn yw

Pwrpas y newidiadau arfaethedig yw gwarchod ein fframwaith rheoleiddiol, a sicrhau bod modd defnyddio'r llyfr statud a'i fod yn gyfredol wrth i'r DU ymadael â'r UE. Gwelodd yr ymateb i'r ymgynghoriad bod cefnogaeth i'r newidiadau arfaethedig. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi edrych ar yr ymateb a gafwyd ac yn mynd ymlaen â'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei amlinellu yn yr ymgynghoriad.

Atodiad A

Rhestr o ymatebwyr sy'n dymuno bod yn ddi-enw:

Enw'r Ymatebydd	Sefydliad
Gwyn Howells	Hybu Cig Cymru (HCC)